# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 5ED IONAWR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 29 Rhagfyr 2020)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams

Jason Wayne Parry

Elfed Williams (Cadeirydd)

Angela Russell (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Dewi W Roberts

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 7

Abersoch Diner, Stryd Fawr, Abersoch, LL53 7DY

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o’r pedwar egwyddor o’r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **5ed o IONAWR 2021** |
| | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - ABERSOCH DINER, STRYD FAWR, ABERSOCH** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Abersoch Diner, Stryd Fawr, Abersoch, LL53 7DY gan yr ymgeisydd Gavin Hancock. Mae'r ymgeisydd yn ceisio amrywiad i 'r trwydded eiddo presennol ar gyfer ystafell fwyta un llawr i 30 bobl.

1.2 Gwneir y cais mewn perthynas ag ymestyn oriau agor, oriau gwerthu alcohol (ar yr eiddo yn unig) ac i ddarparu cerddoriaeth wedi recordio ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad i'r cais gan aelodau'r cyhoedd, a cytunodd yr ymgeisydd i amodau gwarchod y cyhoedd o ran cyfaddawdu i beidio a defnyddio'r ardal allanol ar ôl 6y.h. Nid oedd sylwadau na gwrthwynebiadau gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Trwydded Presenol/Current Licence** | | **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** | |
|---|---|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours** | | **Oriau Agor / Opening Hours** | |
| Dydd Sul/Sunday | 08:00 - 21:30 | Dydd Sul/Sunday | 08:00 - 00:30 |
| Dydd Llun/Monday | 08:00 - 22:30 | Dydd Llun/Monday | 08:00 - 00:30 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 22:30 | Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 00:30 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 22:30 | Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 00:30 |
| Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 22:30 | Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 00:30 |
| Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 22:30 | Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 00:30 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 22:30 | Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 00:30 |
| **Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites:** | | | |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar yr Eiddo / On the Premises** | | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar yr Eiddo / On the Premises** | |
| Dydd Sul/Sunday | 12:00 - 21:00 | Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 12:00 - 22:00 | Dydd Llun/Monday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 12:00 - 22:00 | Dydd Mawrth/Tuesday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 12:00 - 22:00 | Dydd Mercher/Wednesday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 12:00 - 22:00 | Dydd Iau/Thursday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 12:00 - 22:00 | Dydd Gwener/Friday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 12:00 - 22:00 | Dydd Sadwrn/Saturday | 11:00 - 00:00 |
| | | **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do / Indoors** | |
| | | Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 00:00 |
| | | Dydd Llun/Monday | 11:00 - 00:00 |
| | | Dydd Mawrth/Tuesday | 11:00 - 00:00 |
| | | Dydd Mercher/Wednesday | 11:00 - 00:00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Dydd Iau/Thursday | 11:00 | - | 00:00 |
| | Dydd Gwener/Friday | 11:00 | - | 00:00 |
| | Dydd Sadwrn/Saturday | 11:00 | - | 00:00 |

2. **<u>Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu</u>**

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Cynhelir polisi her 21 gwerthiant alcohol a ni fydd gwerthiant alcohol oddi ar yr eiddo
- Hyfforddi staff ar werthiant alcohol, polisi amddiffyn plant ac anrhefn
- Mabwysiadau agwedd dim goddefgarwch tuag at gyffuriau neu'n feddw
- System a larymau amddiffyn rhag tân wedi gosod a gwasanaethu yn rheolaidd

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

3. **<u>YMGYNGHORIAD</u>**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelodau'r cyhoedd / preswylwyr cyfagos | E-byst – gwrthwynebiad |
| Cynghorydd | E-bost – gwrthwynebiad a sylwadau |
| Cyngor Cymuned Llanengan | E-bost gwrthwynebiad |
| Gwarchod y Cyhoedd | Sylwadau ac amodau |

**3.2 <u>Aelodau'r cyhoedd a phreswylwyr cyfagos</u>**

Cafwyd 9 e-bost yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o:

- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal trosedd ac anrhefn

Mynegwyd pryderon ar faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, niwsans cyhoeddus, materion glanweithiol a throsedd ac anrhefn. Roedd pryder hefyd fod yr eiddo yn agos i'r lon fawr, fod diffyg parcio yna ac yn agos i breswylwyr. Roedd sawl sylwad fod gormod o eiddo trwyddedig yn yr ardal yn barod.

**3.3 <u>Cynghorydd lleol</u>**

Cais yn aneglur at ddibenion pa bwrpas defnydd yr adeilad, a mynegwyd pryder sŵn a niwsans cyhoeddus i'r preswylwyr cyfagos o ran defnydd y gardd tu allan.

**3.4 <u>Cyngor Cymuned Llanengan</u>**

Mynegwyd pryder sŵn a niwsans cyhoeddus i'r preswylwyr cyfagos o ran defnydd y gardd tu allan.

### 3.5 Gwarchod y Cyhoedd

Derbyniwyd sylwadau ac amodau gan yr Adran Gwarchod y Cyhoedd. Cytunodd yr ymgeisydd i gyfaddawdu drwy beidio a defnyddio’r ardal allanol ar ôl 6y.h oherwydd pryderon sŵn, fod rhaid i’r drysau a ffenestri fod wedi cau pan yn chwarae cerddoriaeth ac fod lefel y sŵn yn gefndirol yn unig.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo’r cais - yn unol â’r hyn a gytunwyd gyda Adran Gwarchod y Cyhoedd ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.